# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 20 Chwefror 2013** |
| Amser: | **08:50 - 12:13** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_20_02_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Tystion: | **Christopher Chapman, CLLC**<br>**Jonathan Fearn, CLAW/ACES Property and Estates Group**<br>**Neil Davies, NHS Shared Services Partnership**<br>**Phil Fiander, Director of Programmes, Welsh Council for Voluntary Action**<br>**Matthew Brown, Communities Investment Fund Manager, WCVA**<br>**Peter Williams, WCVA**<br>**Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**<br>**Jo Salway, Llywodraeth Cymru**<br>**Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru**<br>**Matthew Denham-Jones, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Eleanor Roy (Ymchwilydd)**<br>**Kerry Dearden (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2. Rheoli asedau - Tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Christopher Chapman, Rheolwr Rhaglenni - Effeithlonrwydd a Chaffael, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; a Jonathan Fearn, Cadeirydd Grŵp Eiddo ac Ystadau CLAW/ACES, i'r cyfarfod.

2.2 Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan ofyn cwestiynau nas gofynnwyd yn ystod trafodion y Pwyllgor.

## 3. Rheoli asedau - Tystiolaeth gan Gydwasanaethau GIG Cymru

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Neil Davies, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Cyfleusterau, Cydwasanaethau GIG Cymru, i'r cyfarfod.

3.2 Bu'r Aelodau'n holi'r tyst.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Cydwasanaethau GIG Cymru i ddarparu:

- Astudiaethau achos sy'n dangos sut y mae GIG Cymru wedi cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill ym maes rheoli asedau er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.
- Rhestr o enghreifftiau sy'n dangos lle mae cyrff sydd ynghlwm â GIG Cymru wedi defnyddio'r Protocol Trosglwyddo Tir yn effeithiol.

## 4. Rheoli asedau - Tystiolaeth gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Phil Fiander, Cyfarwyddwr Menter ac Adfywio, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Mathew Brown, Rheolwr y Gronfa Fuddsoddi Gymunedol; a Peter Williams, Cyfarwyddwr Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru.

4.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

**Cam i'w gymryd:**

Cytunodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddarparu:

- Nodyn yn amlinellu enghreifftiau o sefydliadu yn y sector gwirfoddol sy'n rheoli asedau fel adnoddau, a hynny er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau, ac sy'n gwneud hyn fel rhan o'u strategaeth gyffredinol.

## 5. Cyllideb atodol Llywodraeth Cymru 2013-2014 - Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ; Jo Salway, Pennaeth Cyllidebu Strategol; Matthew Denham-Jones, Pennaeth Rheoli a Chofnodi Cyllidebau; a Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol.

5.2 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog mewn perthynas â Chyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd y Gweinidog i roi:

- Eglurhad o'r cais yn y cynnig cyllideb atodol am leihad yn y swm i'w dalu o Gronfa Gyfunol Cymru, yn sgîl y ffaith bod ffynonellau eraill o incwm yn uwch na'r lefelau a ragwelwyd yn wreiddiol, a dadansoddiad o'r ffynonellau hyn a'r symiau a ragwelir.

- Eglurhad o'r cyllid a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol i'r cynllun NewBuy (cynllun gwarantu morgeisi) ac i fond tai Cymru - ac eglurhad ynghylch a fydd unrhyw ran o'r cyllid hwn yn cael ei defnyddio yn sgîl dyddiadau tebygol y lansiad. Cytunodd hefyd i roi eglurhad o sut y bwriedir ariannu'r cynllun NewBuy yn y gyllideb, ar adeg gwneud darpariaeth, ac os bydd diffygdaliad sy'n arwain at gost i Lywodraeth Cymru.

- Gwybodaeth bellach am drosglwyddo cyllid cyfalaf o ad-daliadau buddsoddi i arbed er mwyn cwrdd â chostau technoleg gwybodaeth, a manylion am sut y mae'r cyllid refeniw ar gyfer y gronfa wedi cynyddu o ganlyniad i drosglwyddiadau pellach.

## 6. Papurau i'w nodi

6.1 Nododd y Pwyllgor y papur ar ymweliadau buddsoddi i arbed; yr ohebiaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr; a chofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 7. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

## 8. Goblygiadau ariannol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol

8.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod goblygiadau ariannol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol, a chytunodd yr Aelodau i wahodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol i un o gyfarfodydd nesaf y Pwyllgor, er mwyn gallu craffu ar ei gwaith.

## 9. Trafod tystiolaeth ar Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2013-2014

9.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd ar gyllideb atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14, a rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Clerc baratoi adroddiad drafft ar ran y Pwyllgor.

## 10. Ystyried y dystiolaeth ar Reoli Asedau

10.1 Bu’r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd ar reoli asedau, a thystion posibl ar gyfer y cyfarfodydd sydd i ddod.

10.2 Cytunodd y Pwyllgor i baratoi arolwg ar gyfer prif weithredwyr cyrff cyhoeddus er mwyn cael rhagor o dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad.

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.